

# CYNGOR LLYFRAU CYMRU

## Tendr Cylchgronau Cymraeg

ar gyfer  
2023-27

### Canllawiau

#### 1 CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor Llyfrau yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi cylchgronau Cymraeg o bob math fydd yn apelio at bob math o gynulleidfaoedd amrywiol. Mae cyfle i gylchgronau sy'n bod yn barod a chroeso i syniadau newydd sbon. Os ydych yn newydd i'r broses neu i gyhoeddi cylchgronau Cymraeg yna mae croeso i chi gysylltu ag [arwel.jones@llyfrau.cymru](mailto:arwel.jones@llyfrau.cymru) i drefnu sgwrs.

#### 2 CYD-DESTUN

Bydd disgwyl i'r tendr hwn fod yn gystadleuol iawn. Mae cynnal cystadleuaeth yn naturiol yn rhan o'r broses o sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu'n deg, yn gyfle i ymgeiswyr newydd geisio am gefnogaeth, yn ogystal â bod yn gyfle i deitlau cyfredol ystyried eu cyfeiriad a cheisio am nawdd eto.

Ond, eleni, mae ffactorau eraill yn golygu y gall hon fod yn broses anarferol o gystadleuol. Dyw'r grantiau i'r teitlau presennol ddim wedi cynyddu ers cryn amser. Mae costau cynhyrchu a chostau byw wedi cynyddu ac yn debyg o barhau i gynyddu rhwng cyhoeddi a dyfarnu'r tendr hwn, a thu hwnt. Rydym hefyd, fel bob amser, yn gobeithio y bydd teitlau newydd, cyffrous, yn ymuno yn y ras. Ond does dim cynnydd cyfatebol yn y cyllid a ddaw i'r Cyngor gan y Llywodraeth.

Canlyniad hyn yw ei bod hi'n anorfod bron y bydd newidiadau yn y nifer a'r math o deitlau fydd yn cael eu noddi.

Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf wedi ei osod allan yn ein strategaeth 'Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr' [Cynllun-Strategol-2022-2027](#) Fe fyddai'n syniad da iawn darllen y strategaeth hon ac ystyried pa ran neu rannau ohoni all eich cylchgrawn chi helpu i'w cyflawni.

#### 3 MATHAU O GYLCHGRONAU

Amcan y cynllun ydy sicrhau cyhoeddi amrywiaeth o gylchgronau safonol a bywiog yn Gymraeg. Rydym yn gobeithio cefnogi cylchgronau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cynnwys ysgrifennu da a newyddiaduraeth safonol.

Rydym yn credu'n gryf fod cylchgronau yn rhan bwysig o'r diwylliant Cymraeg a byddwn yn disgwyl i'r cylchgronau a noddir, gyda'i gilydd, drafod nifer fawr o bynciau amrywiol. Fel corff sy'n noddi llyfrau rydym hefyd yn gweld lle pwysig i'r cylchgronau adolygu llyfrau Cymraeg a Chymreig perthnasol i'w maes nhw yn gyson.

#### 4. SYNIADAU NEWYDD?

Mae'r gronfa yn agored i deitlau sydd eisoes yn derbyn arian o'r gyllideb hon. Byddai'r Cyngor yn croesawu clywed am gynlluniau newydd gan y teitlau hyn o ran cynnwys, dyluniad, cyfrwng ac amllder eu cyhoeddi.

Ond byddai croeso arbennig hefyd i syniadau am gylchgronau newydd sbon. Byddai modd ystyried patrwm cyhoeddi gwahanol dros y misoedd cyntaf o gyhoeddi er mwyn caniatáu amser i gylchgrawn newydd sefydlu ei hun.

## 5. AMRYWIAETH

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi pwysleisio'n gyson pa mor bwysig ydy amrywiaeth i'n gweledigaeth ni ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru. Mae'r tendr hwn yn gyfle gwych i'r cylchgronau rannu gyda ni sut maen nhw'n gallu cyfrannu at y weledigaeth honno. (Os ydych yn ceisio am nawdd am y tro cyntaf gweler Atodiad 1 am lythyr a anfonwyd at y cylchgronau presennol yn Chwefror 2022.)

Mae cynnwys amrywiol yn golygu cylchgronau sy'n adlewyrchu Cymru yn ei chyfanrwydd fydd o'r herwydd yn fwy diddorol ac yn debyg o gynnig rhywbeth gwahanol i'r gynulleidfa bresennol a, gobeithio, denu cynulleidfa newydd.

## 6 Y GRANT

Bydd y gyllideb gyfan ar gyfer cylchgronau yn £380,000 y flwyddyn. Mae'r arian hwn yn rhan o'r Grant Cyhoeddi a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Bydd y cyfanswm hwn yn cael ei rannu'n ddwy gronfa £40,000 ar gyfer teitlau fydd yn ceisio am £10,000 a llai a £340,000 ar gyfer teitlau fydd yn ceisio am £10,001 a rhagor. Bydd y llwybr ymgeisio ar gyfer y naill yn llawer ysgafnach na'r llall.

Nid yw cyfanswm y gyllideb yn debyg o gynyddu dros gyfnod y tendr hwn a gwneir unrhyw gynnig yn amodol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Bydd disgwyl i bob cais fod wedi ei gostio'n drylwyr fel bod y fenter dros gyfnod y tendr yn gynaliadwy o fewn y grant y mae'r cyhoeddwr yn gofyn amdano.

Ond, mae disgwyl i'r cyhoeddwr hefyd nodi'n glir sut y mae'r cais yn gallu amrywio i ddygydd gyda chynnydd mawr mewn costau neu doriad annisgwyl yn y grant.

## 7 Y MATH O GYLCHGRONAU NA FYDD Y GRANT YN GEFNOGI

**Nid yw'r cynllun yn cefnogi:**

- cylchgronau addysgol. Cyfrifoldeb Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, yw'r rhain.
- cylchgronau sy'n perthyn i fudiadau, oni bai bod y mudiad yn gyffredinol ei apêl a'r deunydd o ddiddordeb i rai y tu allan i'r mudiad;
- cylchgronau lleol eu hapêl. Cyfyngir cefnogaeth i gylchgronau cenedlaethol neu gyhoeddiadau sy'n cyrraedd cynulleidfa eang mewn rhan helaeth o'r wlad.

## 8 Y PETHAU FYDD BWYSICAF I'R PANEL

**Pwnc:** Bydd y Panel yn ystyried sut mae'r grant cyfan yn cefnogi amrywiaeth o gylchgronau. Fe fydd safon cynnwys a chynhyrchu yn allweddol, ond gall gormodedd o geisiadau mewn meysydd tebyg fod yn ffactor wrth wneud y dewis terfynol.

**Gwerthiant:** Yng nghyd-destun ei gynulleidfa potensial bydd disgwyl i'r cylchgrawn gyrraedd cymaint o ddarllenwyr â phosibl. Disgwylir gweld ymdrech wirioneddol i gyrraedd, cadw a denu darllenwyr. Felly bydd y Panel yn edrych ar:

- Gynlluniau hyrwyddo a marchnata;
- Cynlluniau digidol;
- Cynllun cyhoeddi a'r gallu i gadw at amserlen cyhoeddi;
- Cynlluniau dosbarthu.

**Safon:** Er mwyn cyrraedd y potensial uchod mae safon y cyhoeddiad yn bwysig iawn. Mae disgwyl i'r golygu fod yn fywiog a thrylwyr, ac i'r dylunio a'r cynhyrchu gyfrannu tuag at gyrraedd y gynulleidfa darged. Felly bydd y Panel yn edrych ar:

- Weledigaeth olygyddol
- Polisi gweledol
- Polisi cynhyrchu

**Lefel nawdd/incwm.** Bydd disgwyl i'r cylchgrawn godi o leiaf un rhan o dair (33%) o'u hincwm o ffynonellau ac eithrio'r grant hwn.

[Hynny yw, mae'r grant yn gallu cyfrannu hyd at ddwy ran o dair [66%] o gyfanswm incwm y cylchgrawn. Bydd o leiaf 33% yn cael ei gynhyrchu gan werthiant, hysbysebion a nawdd. Mae modd hefyd cydnabod cyfraniadau anariannol (*'in kind'*) fel rhan o'r incwm. [Gweler Atodiad 2]

Er mwyn sicrhau bod y cylchgrawn yn talu ei ffordd ac yn cynnig gwerth am arian i'r grant, bydd y Panel yn edrych ar:

- Ragolygon gwerthiant,
- Rhagolygon denu nawdd, cyllid a chyfraniadau anariannol (*in-kind*),
- Polisi prisio,
- Gwerth am arian i'r grant cyhoeddi.

Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf yma yn gyfartal o ran pwysigrwydd.

## 9 CYNNWYS DIGIDOL

Rydym yn awyddus i weld bod gan y cylchgronau bresenoldeb digidol. Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i berthynas eu cyhoeddiad â'r byd digidol a sut maen nhw'n rhannu **cynnwys** yn ddigidol a'r sylw mae'r cynnwys hwnnw'n ei gael.

## 10 Amserlen

Gorffennaf – Hysbysebu

Dyddiad Cau – 26 Hydref

Dyfarniad – yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi.

Mae'r grantiau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2027 ac yn ddibynnol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## 11 Y CAIS

Bydd Panel o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi ynghyd â rhai arbenigwyr allanol yn penderfynu ar y ceisiadau llwyddiannus.

Rydym yn cadw'r hawl i gyfweld ymgeiswyr tro cyntaf, ond yn gyffredinol ni fyddwn yn cyfweld ymgeiswyr ar gyfer y tendr hwn.

## 12 Y CAIS

Dylech fod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod y cais yn gyflawn. Cymerwch sylw manwl o'r rhestr wirio ar ddechrau'r ffurflen gais i wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys popeth angenrheidiol.

- Dylech yrru'r cais
- ar ffurf Word a PDF

- at [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru)
- gydag enw'r cylchgrawn a 'CAIS CYLCHGRONAU CYMRAEG 2023-27' yn y maes testun
- erbyn 12:00 (hanner dydd), ddydd Llun 24 Hydref 2022.

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.

ATODIAD 1

RAJ/JH

10 Chwefror 2022

Annwyl gyd-weithwyr

### **Amrywiaeth mewn cylchgronau a noddir gan y Cyngor Llyfrau**

Fel y gwyrddoch, mae sicrhau bod Cymru yn ei holl amrywiaeth yn cael ei chynrychioli yn y cylchgronau a noddir gennym wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i ni dros y deunaw mis diwethaf. Rydym yn parhau â rhaglen o sesiynau hyfforddi a thrafodaethau, yn fewnol ac â phartneriaid allanol i'n galluogi ni i gyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad â'n hadolygiad mewnol o'r cylchgronau a ariennir gennym. Rydym yn deall nad oedd y wybodaeth hon yn hawdd i chi ei chasglu, ond mae wedi rhoi sylfaen ddefnyddiol iawn i ni adeiladu arni er mwyn mesur newid. Rydym wedi cwblhau arolwg tebyg o lyfrau i oedolion ac mae'r asesiad o lyfrau plant bron wedi'i gwblhau.

Yn y cyfamser, wrth i chi gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, rydym yn cysylltu â chi i drafod y pwnc hwn yn fanylach. Hoffem egluro ein bod yn diffinio amrywiaeth yn fras i olygu'r nodweddion hynny a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: hil, anabled, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y flaenoriaeth sydd angen ei rhoi i gydraddoldeb hiliol, a gallwch gymryd yn ganiataol pan fyddwn yn defnyddio 'amrywiaeth' yn gyffredinol yn y llythyr hwn neu yn ein dogfennaeth, y rhoddir pwyslais neilltuol ar amrywiaeth ethnig.

Fel y gwyrddoch, mae'r cylchgronau'n amrywiol iawn, gan amrywio o ran eu cynnwys o ddeunydd i'r plant lleiaf i feirniadaeth lenyddol. Yn gyffredinol, roedd cylchgronau materion cyfoes yn tueddu i gwmpasu amrywiaeth a thangynrychiolaeth yn fwy na chylchgronau eraill. Rydym yn parchu'ch rhyddid i ymateb yn eich ffordd eich hun er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg, gan gofio ei bod yn mynd yn ddyfnach na dim ond ymdrin â'r pynciau hyn, ond hefyd yn cynnwys defnyddio awduron o gefndiroedd amrywiol i ysgrifennu am bynciau cyffredinol, yn ogystal â chynnwys elfennau gweledol amrywiol, a gweithio gyda gwirfoddolwyr, staff a gweithwyr llawrydd o gefndiroedd amrywiol. Trwy weithio gyda thîm amrywiol, mae'r cynnwys yn llawer mwy tebygol o fod yn amrywiol. Rydym yn eich annog felly i wneud pob ymdrech bosibl, wrth recriwtio pobl, i hysbysebu'n eang ac mewn cymunedau sy'n newydd i chi, gan bwysleisio eich bod yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

Oherwydd bod gan gylchgronau gylch cyhoeddi cyflymach na llyfrau, rydym yn falch bod llawer ohonoch wedi ymateb yn weddol gyflym i'r drafodaeth hon. Hefyd mae'r holiadur wedi ysgogi llawer ohonoch i feddwl yn ddwys a chynnal eich arolygon eich hun ar natur ac amrywiaeth eich cyfranwyr.

Mae cylchgronau'n derbyn llawer o gyfraniadau digymell, rhai ohonynt yn ymateb i gynnwys neu thema'r cylchgrawn, ond mae'r golygyddion hefyd yn dibynnu'n helaeth ar eu gwybodaeth eu hunain a'u byrddau golygyddol wrth chwilio am gynnwys newydd, gyda chomisiynu rhagweithiol o ran erthyglau ac adolygiadau yn parhau'n hollbwysig.

Fe gyfeiriodd rhai ohonoch at y gronfa fechan o newyddiadurwyr sydd yng Nghymru eisoes, gan nodi bod y gronfa o newyddiadurwyr o gefndiroedd amrywiol yn llai fyth. Mae mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu nifer yr awduron sy'n cael eu tangynrychioli yn eich cyhoeddiadau ar hyn o bryd yn un cam i fynd i'r afael â'r mater hwn. Nid yw hyn yn golygu cyfaddawdu o ran ansawdd, ond mae'n bwysig iawn bod y llwybrau at gyhoeddi yn glir, a bod drysau cyhoeddwr ar agor i awduron gyflwyno eu gwaith.

Rydym i gyd yn cytuno y bydd yn cymryd amser i adnabod a meithrin dawn ysgrifennu a throï'r ysgrifenydd hynny'n awduron cyhoeddedig. Awgrymwyd y dylem edrych ar ffyrdd o gefnogi cydawdurno a datblygu perthynas rhwng awduron a golygyddion i feithrin ton newydd o gyfranwyr.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cylchgronau fel lle i feithrin awduron ar gyfer y diwydiant cyhoeddi ehangach. Credwn fod datblygu ac ehangu eich rhwydwaith o gysylltiadau yn allweddol i gyflawni newid mesuradwy. Os ydym am ddod o hyd i awduron newydd bydd yn rhaid chwilio mewn lleoedd gwahanol, gwneud cysylltiadau newydd a chwilio am rwydweithiau gwahanol, e.e. partneru â chymdeithasau a chyrrff amrywiol sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a defnyddio cyfryngau fel Instagram, Twitter, Reddit, podlediadau ac ati.

Fe wnaethoch hefyd dynnu sylw at yr angen i allu talu cyfranwyr yn deg os ydych am sicrhau cynrychiolaeth well o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, a byddwn yn ystyried y pwynt hwn wrth gyhoeddi'r tendr nesaf ar gyfer y cylchgronau.

Mae hyn yn arbennig o wir am awduron o gefndiroedd ethnig amrywiol sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, lle mae'r niferoedd gymaint yn llai. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r gwaith hwn ac yn cydnabod y gall gymryd degawd neu fwy i gyrraedd ein targed. Byddwn yn chwilio am bartneriaethau i helpu i gyflawni hyn ac yn croesawu unrhyw syniadau neu brosiectau gan gyhoeddwr sydd am ddefnyddio'r broses gyhoeddi i feithrin talent newydd.

Fel golygyddion rydych yn deall pwysigrwydd ystyried amrywiaeth wrth gomisiynu, gan fod hyn yn sicrhau cynnwys amrywiol sy'n cwmpasu pob rhan o gymdeithas fel sy'n briodol i'ch cyhoeddiad chi. Pan fydd awduron yn ysgrifennu am feysydd y tu hwnt i'w profiad eu hunain, rydym yn awgrymu comisiynu adborth gan unigolion neu gymdeithasau sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau i wneud yn siŵr bod y gwaith yn driv i brofiad byw y gymuned honno.

Tra bod hyn ynddo'i hun yn fater o degwch o fewn y byd cyhoeddi Cymraeg a Chymreig, un o negeseuon mwyaf trawiadol yr arolwg oedd bod amrywiaeth yn golygu bod eich cylchgronau yn fwy diddorol, a bod cylchgronau mwy diddorol yn gwneud y cynnwys yn fwy apelgar i'r gynulleidfa bresennol a hefyd yn fwy tebygol o gyrraedd cynulleidfaedd newydd. Felly mae rhesymau moesol a masnachol cadarn dros symud yn frwdfrydig i'r cyfeiriad hwn.

Bydd adolygiad amrywiaeth yn rhan o'n system ymgeisio am grant a gwerthuso, a bydd ein canllawiau a'n hamodau grant yn cael eu llywio gan yr ystyriaethau hyn er mwyn ein galluogi i fesur cynnydd.

Mae cynrychiolaeth amrywiol a theg o ran cynnwys yn dechrau gyda gwell cynrychiolaeth o awduron o gefndiroedd amrywiol a gwneud cynnwys gweledol pob cylchgrawn mor gynrychioliadol â phosibl o'r Gymru gyfoes. Mae hon yn her i'r sector cyfan, yn enwedig yn y Gymraeg, ac rydym yma i'ch cefnogi a byddwn yn gweithio gydag asiantaethau eraill yn y diwydiannau creadigol i ddatblygu talent newydd. Fel cyhoeddwr rydych yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu ein sector ymhellach: mentora a

hyfforddi awduron ac artistiaid newydd, ac ysbrydoli awduron mwy profiadol gyda'r nod o gael gwared ar gymaint o rwystrau â phosibl.

I grynhoi, byddwn yn:

- chwilio am bartneriaethau a hyrwyddo cyfleoedd i feithrin a datblygu awduron o gefndiroedd amrywiol;
- gwneud y llwybrau i gyflwyno a chyhoeddi yn glir ar ein gwefan;
- blaenoriaethu grantiau i bobl o gefndiroedd amrywiol;
- ymdrechu'n barhaus i ddod o hyd i artistiaid / ffotograffwyr / darlunwyr / dylunwyr o gefndiroedd amrywiol at ddefnydd mewnol ac i'w hargymell i gyhoeddwyr;
- darparu cyngor ac arweiniad clir i gyhoeddwyr na ddylid ofni gweithredu yn gadarnhaol;
- ystyried sut y gallwn gefnogi cylchgronau i dalu cyfranwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig;
- trefnu hyfforddiant yn ôl yr angen.

Byddwn hefyd yn eich cefnogi chi i sicrhau:

- bod gwybodaeth ar eich gwefan am eich proses gomisiynu sy'n ei gwneud yn glir eich bod yn croesawu ac yn blaenoriaethu gweithiau gan awduron o gefndiroedd amrywiol;
- bod y llwybrau i gyflwyno a chyhoeddi wedi'u hamlinellu'n glir ar eich gwefan;
- bod eich gwybodaeth yn cynnwys polisi clir ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- eich bod yn gwneud galwadau agored a phenodol am waith gan awduron o gefndiroedd amrywiol gan ddefnyddio cyfryngau a llwyfannau newydd a gwahanol;
- eich bod yn comisiynu awduron o gefndiroedd amrywiol, ac os ydynt yn ddibrofiad byddwn yn eich cefnogi i fod yn ddychmygus wrth gynnig cyfleoedd i gydawuro neu ennill profiad trwy gynnig comisiynau byrrach ac ati;
- eich bod yn gwneud elfennau gweledol y cyhoeddiad mor amrywiol â phosibl;
- eich bod yn ymdrechu'n barhaus i ddod o hyd i artistiaid / ffotograffwyr / darlunwyr / dylunwyr o gefndiroedd amrywiol;
- eich bod yn defnyddio darllenwyr sydd â phrofiad byw o'r nodweddion a drafodir, pan fydd awduron yn trafod cynnwys sy'n anghyfarwydd iddyn nhw eu hunain neu i'r golygydd;
- eich bod yn cysylltu â chymdeithasau sy'n cynrychioli cymunedau a chanddynt nodweddion neu gyflyrau sy'n anghyfarwydd i'r awdur neu'r golygydd, am arweiniad.

Edrychwn ymlaen at drafod hyn ymhellach dros y misoedd nesaf. Mae croeso i chi gysylltu ag unrhyw ymholiadau penodol.

Yn gywir

**RAJ**

## Atodiad 2

### Canllawiau ar gyfer Cyfraniadau Anariannol (In kind)

Bydd cyfraniadau anariannol (*in kind*) yn cael eu hystyried wrth asesu incwm yr ymgeisydd a phenderfynu ar lefel y grant y gellir ei rhoi, yn unol â'r meini prawf cymhareb arian cyfatebol 2:1, sy'n ofynnol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol wrth gyfrifo gwerth eu cyfraniadau anariannol. Bydd angen i chi esbonio i ni sut yr ydych wedi cyfrifo hyn.

- Gall y cyfraniadau gynnwys cyfrifiaduron neu unrhyw offer arall a roddwyd; defnyddio eiddo a roddwyd yn benodol, a darparu gofod swyddfa a chostau cysylltiedig a ddarparwyd gan y sefydliad cynnal. Dylid eu prisio fel a ganlyn: dylid cynnwys offer sy'n cael ei roi yn ôl y pris sy'n cael ei hysbysebu ar y farchnad, os yw'n newydd, neu amcangyfrif rhesymol o'r pris ail law, os nad yw'n newydd. Dylid cyfrifo defnydd o eiddo a ddarparwyd ar gyfer y sefydliad yn ôl gwerth priodol y farchnad; a dylid cyfrifo gofod swyddfa a'r costau cysylltiedig yn cynnwys taliadau ffôn, llungopïo ac ati yn ôl gwerth priodol y farchnad. Os yw hyn yn cael ei rannu gyda defnyddwyr eraill, dylid rhannu'r gost yn gymesur.
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd arddangos sut y mae wedi cyfrifo gwerth y farchnad ar gyfer eitemau sy'n cael eu rhentu neu eu prynu. Dylid darparu tystiolaeth o werth y farchnad, yn cynnwys cyfraddau cyhoeddedig ar gyfer llogi eiddo, neu restr o brisiau offer a gwasanaethau.
- Gellir ystyried disgownt cyflenwyr ar gyfer cyfraniadau anariannol, pan fyddant yn dangos cefnogaeth amlwg i'r sefydliad, er enghraifft, disgownt argraffu gan gwmni argraffu yng Nghymru a roddir yn benodol fel cydnabyddiaeth o rôl y sefydliad yn niwylliant Cymru. Ond mae'n rhaid i'r cyflenwr gadarnhau'r disgowntiau sy'n cyd-fynd â'r meini prawf hyn fel disgownt penodol i'r sefydliad fel cyfraniad, yn hytrach na disgownt masnach safonol.
- Gellir cyfrifo cyngor ac arbenigedd arbenigwyr a ddarparwyd am ddim a mathau eraill o lafur gwirfoddol a roddwyd i'r sefydliad fel cyfraniadau anariannol. Gall cyfraddau cyfraniadau llafur gwirfoddol amrywio'n fawr, yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei wneud.
- Dylech gyfrifo'r gyfradd yn ôl gwerth priodol y farchnad am beth fyddai wedi'i gostio i chi logi'r llafur neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi. Bydd angen i ni weld tystiolaeth glir o sut rydych wedi cyfrifo'r gyfraddau rydych yn eu defnyddio. Gall eich tystiolaeth gynnwys cyfraddau dyddiol cyhoeddedig am wasanaethau cynghori neu gyngor cyfreithiol, neu amcangyfrifon o beth fyddai cyflogau rhesymol y math o waith sy'n cael ei roi, er enghraifft, dylid cyfrifo cyfradd *intern* yn ôl yr isafswm cyflog, er mwyn adlewyrchu natur weinyddol sylfaenol y rôl. Os bydd *intern* yn cael ei gyflogi fel *quid pro quo* gyda sefydliad cynnal, ni ddylid ystyried hyn fel cyfraniadau mewn nwyddau, oherwydd yn yr achos hwn, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyfranogwr.
- Ni ddylai aelodau o fwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant (dosbarthiad dielw) dderbyn unrhyw wobrau ariannol am eu dyletswyddau disgwylidig fel aelod o'r bwrdd. Os bydd aelod o fwrdd yn rhoi llafur neu wasanaethau gwirfoddol, byddant yn dechnegol yn derbyn swm ariannol am y llafur neu'r gwasanaeth hwn, oherwydd eu gwerth ariannol. Felly, bydd unrhyw lafur neu wasanaethau gwirfoddol a roddir gan aelodau o fwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant, ond yn cael ei ystyried os bydd y gwaith y tu hwnt i'w dyletswyddau disgwylidig arferol fel aelod o'r bwrdd, ac y gellir profi'n glir nad yw'n cynrychioli gwrthdaro buddiannau.